



# Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

## CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS

21 Hydref 2021  
Cyfarfod rhithwir  
09:30 – 13:30

Sesiwn gyhoeddus			Tudalen
09:30	1.	Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd	Llafar
09:35	2.	Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau	Llafar
09:40	3.	<a href="#">Cofnodion cyfarfod Bwrdd 15 Gorffennaf 2021</a> I'w cymeradwyo	SCW/21/24 3
09:45	4.	<a href="#">Log gweithredu</a> a materion yn codi - <a href="#">Proses Gweithredu Cadeirydd - Diwygiadau i'r Rheolau Cofrestru</a>	SCW/21/25 19 23
09:50	5.	Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau I'w nodi a derbyn	Llafar
09:55	6.	Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr I nodi a derbyn	Llafar
10:00	7.	Atebolrwydd gyda Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol	Llafar
<b>11:00 – 11:10 Egwyl</b>			
11:00	8.	<a href="#">Cynllun Strategol Amlinellol 2022-2027</a> I'w ystyried	SCW/21/26 24
11:25	9.	<a href="#">Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-2025</a> I'w ystyried	SCW/21/27 47
11:50	10.	<a href="#">Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21</a> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/28 71
<b>12:05 – 12:20 Egwyl</b>			
12:20	11.	<a href="#">Adolygiad o grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru</a> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/29 91

12:45	12.	<a href="#">Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd chwarter 2</a> Ystyried a chymeradwyo	SCW/21/30	105
13:10	13.	<a href="#">Rheolau Sefydlog ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd</a> Ystyried a chymeradwyo	SCW/21/31	126

**I'w drafod:**

13:20	14.	Effeithiolrwydd y cyfarfod I'w drafod	Llafar	
-------	-----	--	--------	--

**Dyddiad cyfarfod nesaf:  
Dydd Iau 3 Chwefror 2022**



## Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

### CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS

15 Gorffennaf 2021

Cyfarfod Zoom rhithwir

09:30 - 13:00

#### Yn bresennol:

#### Aelodau o'r Bwrdd:

Mick Giannasi (Cadeirydd eitem 1 – 10)  
Carl Cooper  
Damian Bridgeman  
Donna Hutton  
Emma Britton (eitem 1-11)  
Grace Quantock  
Jane Moore  
Jo Kember (Cadeirydd eitem 11-13)  
Kate Hawkins  
Maria Battle  
Peter Max  
Rhian Watcyn Jones  
Simon Burch  
Trystan Pritchard

#### Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Swyddog Prif Weithredol) (eitem 1-10)  
Andrew Lycett (Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol)  
David Pritchard (Cyfarwyddwr Rheoleiddio)  
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu) (eitem 11-13)  
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)  
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)  
Rhianon Jones (Rheolwr AD a Lles)  
Malcolm Williams (Rheolwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus)  
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu - cofnodion)

#### Presennol:

Steffan Wiliam, Cymen (cyfieithu ar y pryd)  
Lora Payne  
Ffion Henderson-Jones

#### Sesiwn gyhoeddus:

1. **Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**
  - i. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai Steffan Wiliam yn dirprwyo ar ran Aled Jones i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn. Roedd Ffion Henderson-Jones yn mynychu hefyd fel rhan o'i phroses sefydlu, gan ei bod newydd gychwyn fel swyddog AD a Lles. Anogodd y Cadeirydd y bobl a oedd yn gallu cyfrannu yn y Gymraeg i wneud hynny ac i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd oedd ar gael.

- ii. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai ef a SE yn gadael y cyfarfod am 11:30 i gyfarfod y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd JK yn Cadeirio'r cyfarfod Bwrdd o eitem 11 ymlaen.
- iii. Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau o'r Bwrdd y byddai'r adran ar effeithiolrwydd y cyfarfod, fel y cyfarfod ym mis Ebrill, yn cael ei gofnodi gan ddefnyddio Jamboard, lle gofynnwyd tri chwestiwn a bydd y sylwadau'n cael eu casglu ar ddiwedd y cyfarfod.

## 2. Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

- i. Nodwyd ymddiheuriad gan Abigail Harris; byddai Sarah McCarty yn ymuno'n hwyrach gan ei bod yn mynychu Gŵyl Haf ADSS Cymru.
- ii. Ni wnaed unrhyw ddatganiad newydd o fuddiannau.

## 3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd ar 29 Ebrill 2021

- i. Trafodwyd a **chadarnhawyd** cofnodion 29 Ebrill 2021 gan y Bwrdd fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4. Log Gweithredu a Materion yn Codi

- i. Tynnwyd sylw'r aelodau at y log gweithredu treigl sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu sy'n weddill ers y cyfarfod diwethaf.
- ii. Nid oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach ar y log gweithredu a **nododd a derbyniodd** yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn y camau gweithredu.

## 5. Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

- i. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a risg, darparodd RWJ grynodedb o'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor gan dynnu sylw at y canlynol:-
  - Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 7 Gorffennaf er mwyn ystyried yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a oedd ar yr agenda i'w cymeradwyo;
  - Llongyfarchodd y Pwyllgorau y sefydliad ar yr archwiliadau mewnol ac allanol cadarnhaol mewn blwyddyn a fu'n eithriadol o anodd;
  - Cafwyd apêl gan y Pwyllgor i gael gwell cydbwysedd gyda'r papurau rhwng y rhai sy'n ddeunydd darllen hanfodol a'r hyn y gellir ei ddarllen fel gwybodaeth ychwanegol pe bai aelodau o'r Pwyllgor am gael rhagor o fanylion;
  - Gofynnodd yr aelodau i'r Grŵp Cydgysylltu Cadeiryddion (CCG) ailedrych ar y gwaith o amserlennu cyfarfodydd Pwyllgor. Y teimlad oedd bod dau gyfarfod mewn un diwrnod yn ormod wrth weithio'n rhithwir.

- ii. Roedd DB wedi cadeirio cyfarfod Mehefin o'r Pwyllgor Gwella a dywedodd fod y cofnodion manwl ar y porth i aelodau eu darllen. Tynnodd sylw hefyd at y pwynt a wnaeth RWJ am yr angen i ystyried y cydbwysedd yn y papurau a nodi lle gellir darparu rhagor o wybodaeth ar wahân i'r deunydd darllen hanfodol ar gyfer y cyfarfod.
- iii. Tynnodd PM sylw hefyd at y materion canlynol a oedd wedi'u trafod yn ystod y cyfarfod Pwyllgor:-
- Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol ar y strategaeth ddata ac roedd cydnabyddiaeth i'r ymgysylltu ehangach sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith hwn; efallai fod yna gyfle yma i gysylltu â'r Prif Swyddogion Digidol newydd;
  - Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor am nifer y bobl oedd yn defnyddio gwasanaeth y Rhaglen Cymorth i Weithwyr; roedd y niferoedd yn isel gyda chostau cysylltiedig cymharol uchel oherwydd lefel y cymorth posibl a oedd angen. Bydd y pwyllgor yn parhau i adolygu'r mater.
  - Nododd yr aelodau'r angen i'r sefydliad fod yn gliriach ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni erbyn Mawrth 2022 mewn perthynas â Strategaeth y Gweithlu;
  - Daeth thema i'r amlwg yn ymwneud â'r gallu i ddangos effaith y gwaith a wneir gan y sefydliad.
- iv. Ychwanegodd SE fod y pryder a fynegwyd am y nifer isel sy'n ymuno â'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr wedi'i drafod yn fewnol. Fodd bynnag, roedd yn bwysig cydnabod yr anhawster cychwynnol o gael pobl i ymgysylltu gan nad oedd y cymorth hwn ar gael yn flaenorol. Dywedodd hefyd nad oedd y cyllid wedi'i gadarnhau tan fis Rhagfyr 2021, a bod trafodaethau ar y gweill am Raglen Cymorth i Weithwyr yn cyfuno lechyd a Gofal Cymdeithasol o bosibl wrth symud ymlaen.
- v. Dywedodd SE ei bod wedi cyfarfod â Jonathan Griffiths, Llywydd ADSS Cymru yn ddiweddar, a'i fod wedi sôn am yr angen i ganolbwyntio ar yr elfen gweithlu gofal uniongyrchol fel rhan o strategaeth y gweithlu. Atgoffwyd yr aelodau fod y gweithlu gofal uniongyrchol a chynlluniau'r gweithlu Gwaith Cymdeithasol yn canolbwyntio ar y cynllun busnes a fydd yn cael ei ddatblygu eleni.
- vi. Mewn perthynas ag effaith, â'r ymgyrch denu, recriwtio a chadw yn benodol, roedd SE wedi gofyn i'r rhai a oedd yn arwain yr ymgyrch edrych a oes unrhyw byrth swyddi perthnasol eraill fel y gellir eu cymharu, ochr yn ochr â datblygu mwy o swyddogaeth adrodd o'r porth swyddi presennol.
- vii. Diolchodd CC i SE am ei hymateb defnyddiol; roedd yn teimlo bod y mater o effaith yn un ehangach ac yn un a drafodir yn aml mewn cyfarfodydd gan ei fod yn anodd ei fesur. Fodd bynnag, mae'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng effaith a gweithgarwch wrth ystyried data a sicrhau bod y gwahaniaeth hwn yn glir yn yr adroddiadau a dderbynnir.
- viii. Diolchodd y cadeirydd i CC am ei sylwadau. Roedd yn cydnabod bod y cwestiwn o fesur effaith yn rhywbeth a oedd wedi'i drafod ers peth amser a bydd cyfleoedd i gryfhau'r agwedd hon yn esblygu wrth i fframwaith perfformiad ar gyfer y cynllun strategol newydd gael ei ddatblygu.

- ix. Fel Is-gadeirydd Rheoleiddio a Safonau, tynnodd GQ sylw at y materion canlynol a oedd wedi dod i'r amlwg yn y cyfarfod diwethaf:
- Craffwyd yn fanwl ar yr adroddiad ar ddatblygiadau Rheoleiddio;
  - Nododd y Pwyllgor y penderfyniad y byddai'r broses o ddiddymu dyledwyr, a ataliwyd yn ystod COVID, yn aildechrau yn awr;
  - Cydnabuwyd er bod perfformiad y Tîm Cofrestru'n dda ar hyn o bryd, byddai angen rheoli'r pwysau a fydd yn cael ei weld yn y dyfodol o ganlyniad i broses gofrestru gweithwyr cartrefi gofal i oedolion a chynnydd posibl mewn atgyfeiriadau gan weithwyr gofal cartref i'r tîm Addasrwydd i Ymarfer;
  - Cafwyd diweddariad am y rhaglen waith ar gyfer 2021-22.
- x. Gofynnodd DB faint o ddyledwyr oedd ar y gofrestr a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar ddarparwyr pe bai gweithwyr yn cael eu diddymu. Dywedodd DP fod tua 10% o'r gofrestr gofal cartref mewn ôl-ddyledion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn annisgwyl o gofio cyfradd trosiant y sector ac mae'n debygol ei fod yn adlewyrchu'r rhai sydd wedi gadael y sector yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dyletswydd ar y sefydliad i gadw Cofrestr gywir, ac er bod y gwaith o ddiddymu dyledwyr wedi'i oedi oherwydd COVID, roedd angen ailsefydlu'r broses er mwyn sicrhau cywirdeb wrth symud ymlaen. Rhoddodd DP sicrwydd i'r bwrdd fod y gwiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn diddymu o'r gofrestr.
- ix. Nid oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach o'r diweddariadau a gafwyd.

## 6. Gosod Cyd-destun a Phrif Negeseuon gan y Prif Weithredwr

- i. O ran y cyd-destun ar gyfer y cyfarfod heddiw, darparodd SE y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol:-
- Roedd y rhaglen Lywodraethu wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar ac roedd EMT wedi bod yn edrych ar yn fanwl ar gyfraniad Gofal Cymdeithasol Cymru at y gweithgareddau amrywiol; roedd y Cadeirydd ac SE yn cyfarfod â phartneriaid perthnasol dros y misoedd nesaf a oedd yn rhoi cyfle am drafodaeth bellach ar y rhaglen Lywodraethu a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio.
  - Roedd y sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm Noddi yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun adfer gofal cymdeithasol ac roedd llesiant y gweithlu yn flaenoriaeth. Byddai'r cynllun yn cael ei lansio cyn y gwyliau gan y Dirprwy Weinidog ac unwaith y byddai wedi'i gyhoeddi byddai'n cael ei rannu â'r Bwrdd;
- GWEITHREDU**
- Roedd aelodau'r uwch dîm yn rhan o'r cynllun 'Adeiladu Cymru Iachach', a arweinir gan lechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Roedd y cyfarfod mwyaf diweddar yn canolbwyntio'n benodol ar COVID a thegwch iechyd;
  - Bellach mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-22 yn nwylo tîm Noddi Llywodraeth Cymru i'w rannu â'r Dirprwy Weinidog i'w gymeradwyo;
  - Roedd y Cynllun Cydraddoldeb 2022-27 yn destun ymgynghori ar hyn o bryd;
  - Roedd rhaglen beilot ar gyfer dychwelyd i weithio yn y swyddfa ar fin cychwyn yr wythnos ganlynol. Byddai'n para 6 wythnos gyda thua 25 aelod staff a bydd yr hyn a ddysgir yn llywio unrhyw fodel hybrid posibl o weithio ar gyfer y dyfodol.

ii. O ran yr agenda ar gyfer y cyfarfod, tynnodd SE sylw at y canlynol:-

- Cafwyd trafodaeth dda yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ac roedd sylwadau'r aelodau'n ddefnyddiol wrth lunio'r fersiwn derfynol a fyddai'n cael ei hystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Ni fu'n bosibl rhannu fersiwn gyda newidiadau wedi'u marcio oherwydd y fformat a'r feddalwedd a ddefnyddir. Fodd bynnag, cafodd yr aelodau eu sicrhau bod yr holl gyfraniadau'n wedi'u hystyried a'u hymgorffori lle'n briodol;
- Roedd yn braf gweld y sefydliad yn gweithredu o fewn y lefel goddefgarwch o 5% fel rhan o'r adolygiad cyflog cyfartal; mae'r sefydliad yn adlewyrchu'r sector hefyd, gyda nifer sylweddol uwch o weithwyr benywaidd o gymharu â gweithwyr gwrywaidd;
- Mae'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo'n rhan o'r gwaith o gryfhau ein prosesau llywodraethu;
- Mae'r cynllun Strategol newydd wedi'i oedi'n fwriadol hyd nes y cynhelir etholiadau'r Senedd a hyd nes y cyhoeddir y rhaglen Lywodraethu newydd;
- Bydd y Strategaeth yn cael ei chadw ar lefel uchel gan ddisgrifio'r trywydd i'w ddilyn a'r canlyniadau a ddymunir, gyda rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau busnes blynyddol;
- Bydd y Cynllun Strategol yn adeiladu ar drafodaethau'r sesiynau datblygu yn ogystal â'r cymorth gan ffrindiau beirniadol fel Cordis Bright a Grant Thornton;
- Mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys canlyniadau y mae'r sefydliad yn atebol drostynt a chanlyniadau eraill y bydd y sefydliad yn cyfrannu atynt o bosibl neu'n dylanwadu ar bobl eraill i weithredu. Bydd yn bwysig bod y ddogfen yn nodi'n glir pan fo gan y sefydliad reolaeth ac atebolrwydd uniongyrchol a phan nad oes;
- Y Cynllun Strategol fydd y cynllun trosfwaol a ategir gan nifer o gynlluniau cefnogol eraill fel y Strategaeth Gydraddoldeb, y Strategaeth Ymchwil a Datblygu ddiwygiedig, y Strategaeth Ddata, a'r Strategaeth Ddigidol. Bydd yn cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu;
- Mae'r Polisi newydd ar gyfer Rheoli Risgiau Strategol wedi'i gytuno gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac wrth iddo gael ei ddatblygu, bydd cyfle i wahaniaethu rhwng risgiau i'r sefydliad a risgiau i'r sector sy'n golygu y gall fod angen i'r sefydliad ddefnyddio ei rôl ddylanwadol.

iii. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau neu sylwadau gan yr aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i SE am yr wybodaeth ddiweddaraf ac am osod y cyd-destun ar gyfer y cyfarfod.

## 7. **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Drafft 2020-21, Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon**

i. Cyflwynodd GR y papur. Cadarnhaodd yr hyn yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi'i ddweud yn gynharach yn y cyfarfod, h.y. bod yr adroddiad drafft wedi bod drwy broses graffu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor ar 7 Gorffennaf ac roedd yr aelodau wedi argymhell bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Ar adeg y cyfarfod Pwyllgor, roedd problem yn ymwneud ag oedi wrth dderbyn cadarnhad o'r gwerthusiad o gronfa bensiwn Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, roedd Archwilio

Cymru yn gallu rhoi diweddariad llafar yn y cyfarfod ei fod bellach wedi'i dderbyn a bod yr archwiliad wedi'i gwblhau'n foddhaol.

- ii. Diolchodd GR i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu sylwadau gan ymddiheuro nad oedd modd marcio'r newidiadau ar y ddogfen hon oherwydd dyluniad y meddalwedd a ddefnyddir. Fodd bynnag, roedd yn gobeithio y gallai aelodau weld bod y ddogfen ddiwygiedig yn adlewyrchu eu sylwadau. Roedd diwygiad pellach yn ofynnol ar dudalen 41 mewn perthynas â nifer y bobl a oedd yn destun honiadau a oedd yn cwestiynu eu haddasrwydd i ymarfer.
- iii. Tynnodd GR sylw'r aelodau at yr elfennau o'r cyfrifon a archwiliwyd ar dudalen 71; dywedodd fod y gymhareb datgelu cyflog teg wedi gostwng eleni gan adlewyrchu'r ffaith bod y tâl canolrifol wedi symud un pwynt graddfa yn y raddfa gyflog. Roedd tudalen 72 yn cyfeirio at staffio a niferoedd staff a'r ffaith bod costau staff wedi cynyddu 9% oherwydd bod lefelau staff sy'n gyfatebol i amser cyflawn wedi cynyddu 4-5% yn ystod y flwyddyn.
- iv. Rhoddodd GR drosolwg o'r datganiad o wariant net cynhwysfawr a'r datganiad o sefyllfaoedd ariannol ar dudalennau 81-82 yr adroddiad. Roedd y gyllideb hyfforddiant a chymorth yn unol â gwariant 2019-20 oherwydd dyrannwyd cyllid ychwanegol ar ben y grant hwyluso rhanbarthol fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Bwrdd. Roedd y gwariant heb grant wedi cynyddu hanner miliwn o bunnoedd gan adlewyrchu arian ychwanegol mewn Cymorth Grant.
- v. Roedd cyllideb rheoleiddio'r gweithlu wedi cynyddu hefyd, gan adlewyrchu'r gweithlu gofal cartref ar y Gofrestr a chostau ychwanegol y gwrandawiadau a'r paneli. Roedd costau gweinyddol wedi gostwng tua £200,000 yn bennaf oherwydd bod hawliadau teithio a chynhaliacth wedi gostwng yn sylweddol. Roedd incwm ardstystio prentisiaethau wedi gostwng o £132,000 i £73,000 gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn gweithgarwch oherwydd COVID. Roedd y broses actiwaraidd o ail-fesur pensiynau'n is fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad.
- vi. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, cadarnhaodd RWJ fod y Pwyllgor wedi ystyried iteriadau amrywiol yr adroddiad ac yn falch o weld bod sylwadau'r aelodau wedi'u hystyried. Roedd RWJ o'r farn bod yr adroddiad, dros y blynyddoedd diweddar, wedi aeddfedu a bellach yn haws ei ddeall.
- vii. Dywedodd y Cadeirydd y byddai Archwilio Cymru yn mynychu'r cyfarfod yn bersonol fel arfer; fodd bynnag, roedd Tracy Veale wedi ymddiheuro am fod yn absennol o'r cyfarfod ar ran y sefydliad. Roedd wedi gofyn i'r Cadeirydd bwysleisio'r ffaith bod Archwilio Cymru yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r cyfrifon yn cael eu rheoli, a'r cydweithredu a geir gan GR a'i dîm. Gofynnodd i'r Cadeirydd gyfleu ei diolch a dyna wnaeth y Cadeirydd.
- viii. Gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau neu sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â'r adroddiad:
  - Tynnodd PM sylw at y ffaith nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio ddigon at gyflogau, telerau ac amodau gwasanaeth a chomisiynu yn y sector. Roedd hyn wedi'i drafod yn y Pwyllgor, ond roedd yn dal i deimlo na fyddai effaith yr 'amgylchedd ariannol'



heriol yr oedd y sector yn ei wynebu yn ddigon clir i'r rhai oedd yn darllen yr adroddiad.

- Ymatebodd SE gan ddweud bod y materion yr oedd PM wedi tynnu sylw atynt y tu hwnt i reolaeth y sefydliad. Roedd yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn ymwneud â pherfformiad y sefydliad hwn yn hytrach na'r sector a'r materion sy'n effeithio arno. Dywedodd SE y gellid ychwanegu datganiad am Waith Teg a chytunodd i drafod hyn ymhellach gyda PM y tu allan i'r cyfarfod. **GWEITHREDU**
- Roedd JM yn credu bod yr adroddiad yn gynhwysfawr, yn glir, yn hygyrch ac yn haeddu clod. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ostyngiad o 51% yn lefel lawrlwytho adnoddau o'r wefan gan dybio a oedd hyn oherwydd COVID neu reswm arall?
- Cadarnhaodd MW fod y newid i'r nifer sy'n lawrlwytho data yn dilyn tueddiad a oedd wedi bod yn digwydd ers rhai blynyddoedd; mae systemau olrhain y wefan yn dangos bod mwy a mwy yn ymweld â'r agweddau rheoleiddio ar ein gwaith o gymharu ag ochr welliannau'r wefan. Mae sefydliad allanol wedi edrych ar holl systemau Gofal Cymdeithasol Cymru'n ddiweddar ac mae'r gwaith ymchwil a wnaed wedi dangos y byddai'n well gan y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau gael cynnig sydd wedi'i theilwra fwy i'w rolau unigol. Roedd hyn wedi amlygu'r cyfle i gyfeirio'n well at adnoddau drwy SCWonline, rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd;
- Cyfeiriodd JM at wallau ar dudalen 44 a bod geiriau wedi'u hailadrodd, cafodd hynny ei gydnabod ac y byddai'n cael ei gywiro;
- Gan ychwanegu at bwynt a wnaed yn gynharach gan SE, pwysleisiodd GQ yr angen i'r ddogfen ddangos yn glir lle'r oedd y sefydliad wedi bod yn gwrando ac yn dylanwadu yn hytrach nag arwain er mwyn sicrhau bod atebolrwydd yn glir.

ix. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau. Yn amodol ar ddiwygiadau bach a drafodwyd ac a gytunwyd, **cymeradwyodd** y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol Drafft a nodi'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon.

## 8. Adroddiad Sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd

- i. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, cyflwynodd RWJ yr adroddiad. Ei gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn hunanesboniadol ond roedd yn dymuno tynnu sylw at ddatblygiad fframwaith sicrhau risg newydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mehefin, y byddai'r Bwrdd yn ei weld wedi'i adlewyrchu mewn newidiadau i'r gofrestr risgiau wrth symud ymlaen. Roedd yn braf hefyd gweld y sefydliad yn parhau i wneud yn dda mewn perthynas â'i raglen archwilio fewnol ac allanol a gweld yr ymateb cadarnhaol lle'r oedd angen rhagor o sylw. Roedd RWJ yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau neu sylwadau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor.
- ii. Gan wneud sylw fel aelod o'r Pwyllgor, dywedodd KH ei bod yn credu y bu'n flwyddyn dda a bod y gwaith a wnaethpwyd wedi bod yn aruthrol ac yn destun clod, yn enwedig o ystyried y trefniadau gweithio gwahanol lle gorfodwyd pobl i weithio o bell. Roedd KH am dynnu sylw at bwysigrwydd ymestyn contract Deloitte fel archwilwyr mewnol hyd at fis Mawrth 2022 gan fod sefydlogrwydd y berthynas weithio wedi bod yn bwysig ar yr adeg hon. Gofynnodd KH pryd fyddai proses brofi'r farchnad yn dechrau er mwyn sicrhau archwilwyr mewnol o fis Ebrill 2022.

- iii. Dywedodd AL y byddai'r broses dendro'n cychwyn ddiwedd mis Medi gydag argymhelliad yn cael ei baratoi i'w ystyried yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhan o'r broses gyfnewid. Byddai hysbysiad o fwriad i dendro yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf er mwyn profi'r farchnad gan fod llawer o'r sefydliadau mwy wedi dechrau tynnu'n ôl o'r farchnad dros y blynyddoedd diwethaf ac efallai y byddai angen ymwneud mwy â chwmnïau canolog eu maint i gael ymateb priodol i'r tendr.
- iv. Roedd SB yn dymuno manteisio ar y cyfle i ddiolch i RWJ am ei harweinyddiaeth o'r Pwyllgor yn ystod y pedair blynedd diwethaf wrth i'w thymor ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2022. Roedd y Cadeirydd yn ategu'r sylwadau a nododd fod y broses o benodi Cadeirydd newydd y Pwyllgor wedi dechrau, er mwyn sicrhau y gellir cynllunio olyniaeth a pharhau â'r momentwm.
- v. Gofynnodd JM a oedd angen sôn yn yr adroddiad nad oedd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Llesiant yn bodoli bellach. Cadarnhaodd SE fod y Pwyllgor yn parhau ond ei fod yn Bwyllgor ad-hoc. Gofynnodd JM hefyd a ddylid ychwanegu arsylwyr y Bwrdd a'r Pwyllgorau at y rhestr bresenoldeb er mwyn tryloywder, o gofio trefniadau mentora anffurfiol sydd ar waith ar hyn o bryd.
- vi. Dywedodd y Cadeirydd fod y trefniant wedi'i gofnodi'n gyflawn a'i fod yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru; roedd y trefniadau'n cydnabod yr angen i sicrhau tegwch a byddai mynediad at y Bwrdd wedi'i gyfyngu wrth i'r cyfle i ymuno â'r Bwrdd ddod yn fyw. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn hapus i drafod y mater ymhellach petai pryderon yn parhau i gael eu mynegi.
- vii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a'u cwestiynau a chytunodd yr Aelodau eu bod wedi **trafod a chymeradwyo** Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## 9. Adolygiad Cyflog Cyfartal 2021

- i. Wrth gyflwyno'r papur hwn, dywedodd RJ fod yr adolygiad cyflog cyfartal wedi'i gynnal ym mis Medi a oedd ychydig yn hwyrach nag arfer. Fodd bynnag, ar gyfer 2022, byddai'n cael ei wneud ym Mis Mawrth neu fis Ebrill, yn unol â'r amserlen arferol.
- ii. Diben yr adolygiad oedd sicrhau bod gweithwyr cyflogedig yn cael cyflog cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal ac egluro'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau. Er nad oedd unrhyw ymrwymiad cyfreithiol i sefydliadau o faint Gofal Cymdeithasol Cymru wneud hynny, adroddodd y sefydliad ei fwch cyflog rhwng y rhywiau oherwydd bod gwneud hynny'n arfer da.
- iii. Roedd y bwch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng ers yr adroddiad diwethaf ac ychydig yn uwch na 16%, sef llai na chyfartaledd y DU. Mae'n debyg mai'r eglurhad mwyaf tebygol dros y bwch oedd bod yna orgynrychiolaeth o fenywod ar y graddfeydd cyflog is. Ers yr adolygiad, mae'r sefydliad wedi cynnig swyddi i ddynion ar y raddfa gyflog is a allai ostwng y bwch erbyn y cyfnod adrodd nesaf. Er mwyn ceisio lleihau'r blwch, atgoffwyd rheolwyr penodi o'r angen i gael cydbwysedd o ran y

rhywiau ar baneli recriwtio ac roedd hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod wedi'i gyflwyno i'r holl staff a'r rheolwyr.

- iv. Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan aelodau staff, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig. Gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr aelodau staff a oedd yn datgan eu data cydraddoldeb; fodd bynnag, roedd gwaith ar y gweill gyda'r Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn ceisio cynyddu hyn ymhellach. Roedd DB ac EB wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch hyn.
- v. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw gwestiynau neu sylwadau a chodwyd y pwyntiau canlynol:
- Gofynnodd TP pam oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng yn sylweddol rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mehefin 2021. Cadarnhaodd RJ fod hyn oherwydd y ffaith bod gweithwyr cyflogedig gwrywaidd wedi gadael y sefydliad yn ystod y cyfnod hwnnw. O gofio'r nifer cymharol isel o staff, os oes un neu ddau ohonynt yn gadael, gallai hyn arwain at newidiadau sylweddol o ran canrannau.
  - Croesawodd EB y ffaith fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n cael sylw, er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, gan ei fod yn rhoi cyfle i fonitro'r sefyllfa. Cyfeiriodd at sgwrs ddiweddar rhyngddi hi a RJ ac roedd yn gwerthfawrogi'r darlun manwl a gafwyd. Roedd yn hapus i glywed hefyd bod mwy o ddynion wedi'u penodi i'r sefydliad ar y graddfeydd is.
  - Tynnodd DB sylw at sgwrs ddiweddar rhyngddo ef ac RJ lle'r oeddent wedi trafod y broses o gasglu data ar gydraddoldeb. Ar hyn o bryd, roedd yn cael ei gasglu drwy system ar-lein AD ac roedd ar gael i aelodau'r tîm AD yn unig ei weld. Fodd bynnag, cynigiwyd y byddai'r data'n cael ei wneud yn ddiennw ac ar gael i bob aelod staff ei weld fel cynllun prawf, er mwyn gweld a oedd hyn yn annog mwy i'w gwblhau. Roedd DB yn teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol o ran rhoi syniad a yw staff yn ffafrio darparu'r wybodaeth yn ddiennw.
  - Roedd JK wedi synnu nad oedd yr arolwg yn ddiennw gan fod yr holl sefydliadau yr oedd hi wedi cydweithio â nhw wedi mabwysiadu'r dull hwnnw; o'r herwydd, roedd yn teimlo y gallai'r gwaith bwriedig yn ddadlennol. Cadarnhaodd SE fod arolygon staff wedi'u cwblhau'n ddiennw. Fodd bynnag, gellid gweld pa aelodau staff oedd wedi cwblhau'r arolwg drwy'r system AD.
- vi. Cytunodd aelodau'r Bwrdd eu bod wedi **trafod a nodi'r** adroddiad ac fe'i **cymeradwywyd i'w gyhoeddi** ar wefan y sefydliad.

## 10. Cynllun Dirprwyo

- i. Wrth gyflwyno'r eitem hon, dywedodd GR fod yr adroddiad eisoes wedi'i drafod yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ym mis Mehefin. Y cefndir oedd bod nifer yr ymatebion i dendrau wedi gostwng yn gyson mewn blynyddoedd diweddar. Roedd y gostyngiad yn amlwg iawn yn ystod chwarter cyntaf 2020-21. Roedd y newidiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo a nodwyd yn y papur wedi'u datblygu fel ymateb i'r broblem hon.

- ii. Effaith y newidiadau arfaethedig oedd y byddem yn gofyn am amcanbris ar gyfer tendrau rhwng £10,000 a £25,000, yn hytrach na'r gofyniad am broses dendro lawn yn ôl y drefn bresennol. Byddai hyn yn golygu y byddai'r sefydliad yn cyd-fynd ag arferion Llywodraeth Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus. Roedd y newid arfaethedig hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn unol â'r cynllun dirprwyo ac roedd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn; fodd bynnag, roedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i adlewyrchu'r newid hwn i'r Cynllun Dirprwyo.
- iii. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr aelodau a **chymeradwyodd** y Bwrdd y diwygiad i'r Cynllun Dirprwyo fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Nodyn:** Gadawodd MG ac SE y cyfarfod ar y pwynt hwn gyda JK yn cadeirio gweddill y cyfarfod.

## 11. Cynllun Busnes: Adroddiad Cynnydd Chwarter Un

- i. Rhoddodd KS drosolwg o'r adroddiad ar berfformiad chwarter un gan egluro ei fod yn gyfle i aelodau'r Bwrdd graffu ar y wybodaeth ynddo. Pwysleisiodd KS gyfrifoldeb cyfunol y Bwrdd i fonitro perfformiad y sefydliad a sicrhau bod gweithgareddau'r sefydliad yn cael eu cynnal yn effeithiol.
- ii. Adlewyrchodd KS ar y sgwrs a gafwyd yn gynharach yn y cyfarfod lle'r oedd yr aelodau wedi pwysleisio'r angen i allu deall effaith gwaith y sefydliad yn well. Rhoddodd gydnabyddiaeth i bwysigrwydd hyn gan egluro y byddai angen i nifer o'r dangosyddion a oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fesur perfformiad gael eu cysoni fel rhan o'r gwaith o ddatblygu fframwaith diwygiedig ar gyfer rheoli perfformiad i gefnogi'r cynllun strategol newydd. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cytuno ar ddull newydd ar gyfer rheoli risg yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Roedd yr adroddiad cyfredol yn cyd-fynd â'r polisi blaenorol ar gyfer rheoli risgiau; fodd bynnag, byddai'n cael ei gysoni dros y misoedd nesaf.
- iii. Tynnodd KS sylw'r aelodau at y gwaith o adrodd ar berfformiad yn erbyn thema blaenoriaeth un, y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Yma, byddai'r aelodau'n gweld bod rhai o dargedau, dangosyddion, cerrig milltir ac allbynnau'r prosesau busnes wedi dechrau cael eu hystyng yn unol â'r ffocws cynyddol ar fesurau effaith. Roedd un gweithgaredd y tu hwnt i ddisgwyliadau ar y pryd o fewn y thema flaenoriaeth hon ac roedd y naratif yn rhoi eglurhad am y rhesymau dros hyn.
- iv. Gofynnodd KS a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau mewn perthynas â thema blaenoriaeth un a chodwyd y materion canlynol.
  - Cyfeiriodd SB at gyfarfod y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau ym mis Mehefin, lle cydnabuwyd er bod y perfformiad yn gadarnhaol ar hyn o bryd, roedd angen bod yn ystyriol o'r pwysau ychwanegol wrth symud ymlaen, sef y broses gofrestru orfodol ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal i oedolion ym mis Hydref 2022 a'r cynnydd a fydd i'w ddisgwyl mewn atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer.
  - Roedd DP yn cefnogi sylwadau SB, gan bwysleisio'r ffaith nad oedd gweithwyr gofal cartref wedi'u cofrestru am 18 mis a'i bod yn debygol y byddai cynnydd yn nifer yr achosion sy'n parhau yn agored dros 18 mis pan fydd y pwynt hwn yn

cyrraedd. Nid yw'r tîm cofrestru wedi gweld y cynnydd a ragwelwyd yn nifer y ceisiadau i gofrestru hyd yma wrth i'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru gorfodol i weithwyr cartrefi gofal i oedolion agosáu.

- Cyfeiriodd CC at y gwaith ar ddangosyddion perfformiad a metrigau a gofynnodd pryd oedd y Bwrdd yn debygol o weld y fframwaith newydd ar gyfer adrodd perfformiad. Dywedodd KS fod y cyflwyniad ar y Cynllun Strategol yn eitem nesaf yr agenda yn nodi'r camau nesaf o ran datblygu mesurau deilliannau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dangosyddion, cerrig milltir a thargedau chwarterol o ran perfformiad. Y bwriad oedd, yn dibynnu ar gyflymder y cynnydd, y byddai dangosfwrdd newydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel y gellid craffu arno naill ai yn nghyfarfod nesaf y Bwrdd neu'r un dilynol.

v. Gan symud i thema blaenoriaeth dau, gan gydnabod eto'r angen i feddwl yn y tymor hirach a'r broses o bontio i'r mesurau effaith, gofynnodd KS a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y diweddariadau a ddarparwyd. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd TP a oedd unrhyw newyddion am y risg prentisiaeth a allai ostwng y sgôr risg wrth symud ymlaen. Cadarnhaodd KS fod cyfathrebiadau defnyddiol wedi dod i law yn ddiweddar iawn gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n lleihau'r risg hwn, ac y byddai'r manylion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod nesaf.

vi. Gan symud ymlaen i thema blaenoriaeth tri, sef arweinwyr y system gofal cymdeithasol, tynnodd KS sylw at y ffaith bod yna rywfaint o naratif i gefnogi'r diweddariadau gan fod yna sawl darn o waith datblygiadol ar y gweill. Gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau mewn perthynas â'r rhan honno o'r adroddiad.

- Gofynnodd JM am eglurhad pellach am y gwaith oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â phlant, pobl ifanc a theuluoedd dan y thema blaenoriaeth hon.
- Dywedodd SMC fod yna sawl ffrwd waith yn y maes hwn. Mae gwaith wedi'i gyflawni gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant ar raglen datblygu a chefnogi cyfoedion ac o bosibl bydd rhaglen adolygu cyfoedion yn cael ei datblygu yn y dyfodol hefyd. Mae AGC wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'r holl awdurdodau lleol a bydd yr hyn a ddysgir o hyn y llywio datblygiad y rhaglen.
- Byddai'r rhaglen ddysgu ar gael yn yr hydref wedi iddi gael ei llunio ar y cyd gan benaethiaid gwasanaethau, gyda chymorth Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddai hyn yn sicrhau y gellir rhannu dysgu a datblygu ar draws pob awdurdod lleol. Roedd gwaith wedi'i gyflawni hefyd ar ystyried dulliau ataliol yn seiliedig ar gryfderau er mwyn cefnogi plant a theuluoedd agored i niwed a byddai'r adroddiad yn cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwella.
- Gwelwyd bod y broses o recriwtio a chadw ymarferwyr profiadol mewn gwasanaethau plant dan bwysau ac rydym yn gweithio drwy Gynllun y Gweithlu Gofal Cymdeithasol er mwyn gweld beth ellir ei wneud.

vii. Cyflwynodd KS thema pedwar, sy'n gysylltiedig â gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac effeithiolrwydd sefydliadol. Dywedodd bod sylwadau ar berfformiad yn rhoi diweddariad am y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y chwarter cyntaf a gofynnodd am unrhyw gwestiynau neu sylwadau ond ni chafwyd dim.

- viii. Cyflwynodd GR yr adroddiad ariannol, gan bwysleisio ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ac felly, nid oes llawer i'w adrodd o ran diweddariadau.
- ix. O ran y gyllideb, tynnodd GR sylw at y ffaith bod dyraniadau'r gyllideb a oedd wedi'u hadrodd yn flaenorol i aelodau wedi newid ychydig, er bod y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn parhau'r un fath. Roedd y newidiadau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad.
- x. Dywedodd GR fod tanwariant o £43,000 yn y gyllideb ond roedd hyn oherwydd amseru ac nid yn destun pryder ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Byddai elfennau newidiol y gyllideb yn parhau i fod yn destun craffu yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod yna ddarlun clir ar y pwynt chwe mis, a byddai'r gyllideb gyflogau, costau gwrandawiadau, gwariant ar brosiectau, gwaith comisiynu a lefel y bwrsariaethau a roddir yn cael eu gwyllo'n ofalus.
- xi. Diolchodd y Cadeirydd i GR am y diweddariad a gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau, ac ni chafwyd dim.
- xii. Gan gyfeirio at elfen AD y papur, eglurodd RJ fod y dangosfwrdd AD sy'n amlygu dangosyddion AD allweddol wedi'i lanlwytho i'r Porth er gwybodaeth i'r aelodau er mwyn cefnogi'r crynodeb yn y papur. Dywedodd ei bod yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar yr wybodaeth a ddarparwyd.
- Gofynnodd RWJ sut oedd y broses o ymgorffori'r Cynllun Datblygu Personol yn mynd rhagddi. Dywedodd RJ ei bod yn ddyddiau cymharol gynnar, ond bod yr holl staff yn gallu gosod amcanion ar y system AD erbyn hyn, a'r tro diwethaf i ni wirio, roedd gan 70% o'r staff amcanion. Roedd nodyn atgoffa wedi'i hanfon at reolwyr ac ers hynny roedd mwy o aelodau staff wedi bod yn lanlwytho eu hamcanion. Bydd gwiriadau rheolaidd gydol y flwyddyn gan fod y system yn cefnogi'r broses o adrodd gweithgarwch mewn ffordd nad oedd yn bosibl yn flaenorol.
  - Gofynnodd RWJ a oedd unrhyw faterion yn ymwneud â llesiant staff wedi dod i'r amlwg yn y broses. Dywedodd RJ nad oedd y system newydd wedi amlygu unrhyw beth newydd neu wahanol o ran llesiant, ond wedi dweud hynny ni chynhaliwyd unrhyw waith dadansoddi manwl. Yn fwy cyffredinol, roedd gwaith ymgysylltu wedi parhau gyda staff ar eu llesiant, gyda fforymau llesiant a sesiynau coffi a sgwrs yn cael eu trefnu ar gyfer staff, a rheolwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i barhau â'r dull rhagweithiol o ymgysylltu â'u staff. Gan fod polisïau wedi'u hail-gyflwyno tua mis Medi, byddai'n bwysig sicrhau bod yr hyblygrwydd sydd ei angen o hyd yn cael ei gadw lle'n briodol a bod cynlluniau llesiant yn cael eu hadnewyddu.
  - Gofynnodd CC a oedd Gofal Cymdeithasol Cymru, fel sefydliadau eraill, yn cael trafferth recriwtio staff newydd i'r sefydliad; nododd y gyfradd lwyddiant o 65% mewn prosesau recriwtio diweddar gan holi tybed sut oedd hynny'n cymharu â sefydliadau eraill. Gofynnodd hefyd a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud er mwyn gwella cyfraddau recriwtio.
  - Dywedodd RJ fod rhwydwaith rheolwyr AD Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru wedi cael cyfarfod yn ddiweddar lle cafwyd trafodaeth ar recriwtio. Daeth i'r amlwg fod y rhan fwyaf o sefydliadau mewn sefyllfa debyg, yn enwedig pan oedd y Gymraeg yn un o ofynion hanfodol y swydd. Fodd bynnag, nid oedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael y broblem honno, ar ôl llwyddo i lenwi swyddi gwag

o'r fath yn ystod proses recriwtio ddiweddar. Y meysydd a oedd wedi peri problemau i'r sefydliad oedd meysydd gwella a datblygu.

- Dywedodd RJ fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi trafod y mater yn ddiweddar ac wedi datblygu syniadau mewn perthynas ag addasu'r iaith a ddefnyddir mewn deunydd recriwtio, gan ailedrych ar swydd-ddisgrifiadau ac adolygu'r ffurflen gais ar gyfer swyddi. Anogwyd rheolwyr penodi i fynd ati hefyd i baratoi fideos byr yn cyflwyno rolau fel ffordd o ymgysylltu ar-lein yn ogystal â chynnig y posibilrwydd o ymgeisio am swyddi drwy gyfrwng fideo ar gyfer rolau digidol y dyfodol.
- Diolchodd CC i RJ am y diweddariad.

xii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cwestiynau a'u sylwadau. Cytunodd yr aelodau eu bod wedi **crافu** ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes 2020-21 ar y cam tri mis ac wedi **cymeradwyo** hynny.

## 12. Trosolwg o'r Cynllun Strategol 2022-2027

- Rhoddodd KS gyflwyniad i'r Bwrdd a oedd yn rhoi trosolwg o ddatblygiad y cynllun strategol newydd. Nod y cyflwyniad oedd casglu prif bwyntiau'r trafodaethau a oedd wedi'u cynnal yn sesiynau datblygu'r Bwrdd yn ogystal â'r trafodaethau a gafwyd ag aelodau staff a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd.
- Amlygodd KS y canlynol yn ystod y cyflwyniad:
  - Byddai'r cynllun strategol newydd yn adlewyrchu uchelgeisiau'r sefydliad ar gyfer Cymru; byddai'n flaengar ac yn bendant o ran tôn, byddai'n adlewyrchu cyddestun y sefydliad o ran ei waith a'i gylch gwaith a byddai'n glir ynghylch y cysylltiad â'r rhaglen Lywodraethu.
  - Byddai'r cynllun yn amlygu'r prif faterion sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar ac yn cydnabod effaith y pandemig a chynaliadwyedd y sector. Byddai'n adlewyrchu'r rôl arweinyddiaeth genedlaethol a ddarperir gan y sefydliad hefyd ac yn egluro'r newid sydd ei angen ac yn disgrifio cyfeiriad trosfwaol am y pum mlynedd nesaf. Byddai'n cynnwys mesurau effaith clir er mwyn gallu gwerthuso llwyddiant.
  - Roedd adborth yr ymgynghoriad wedi amlygu'r angen am ddiben a gweledigaeth glir, ac roedd hyn wedi'i fireinio a'i gytuno gan y Bwrdd fel a ganlyn:
    - Ein Gweledigaeth: 'Rydym am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion a'u teuluoedd.
    - Ein Diben: 'Rydym yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ac arbenigedd mewn gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, gan arwain y gwaith o ddatblygu a rheoleiddio'r gweithlu, gwella gwasanaethau, data ac ymchwil er mwyn gwella gofal'
  - Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â nodau Strategaeth y Gweithlu, gyda ffocws ar drawsnewid digidol, pwysigrwydd cydraddoldeb y gweithlu, rôl gweithio mewn partneriaeth a phwysigrwydd y Gymraeg. Bydd yn cyd-fynd â'r canllawiau ar dôn y llais.
  - Mae naw o ganlyniadau allweddol wedi'u datblygu ar lefel genedlaethol sy'n nodi'r newid sy'n ofynnol ac yn mesur canlyniadau a fydd yn dangos bod newid wedi'i gyflawni.

- Byddai'r camau nesaf a fyddai'n cynnwys cwblhau'r deilliannau a mesurau'r deilliannau, archwilio data cenedlaethol presennol, diweddarau aelodau ar gynnydd a thrafodaethau gyda'r isadran Noddi yn cael eu cynnal yn ystod mis Awst.
  - Yn ystod mis Medi, byddai gwaith yn cael ei wneud gyda rheolwyr corfforaethol ar effaith a mesurau effaith, byddai archwiliad ar brosesau presennol ar gyfer adrodd perfformiad yn cael ei gynnal a byddai bylchau a gofynion yn cael eu nodi, a byddai'r Bwrdd yn cael cais i gymeradwyo'r Cynllun Strategol yn y cyfarfod ym mis Hydref cyn ei gyflwyno i'r Dirprwy Weinidog.
- iii. Diolchodd y Cadeirydd i KS am y cyflwyniad a oedd yn crynhoi llawer iawn o wybodaeth. Dywedodd bod y sylw pwysig am gydnabyddiaeth wedi procio'r meddwl. Roedd tuedd i feddwl am hyn yn nhermau cydnabyddiaeth gyhoeddus: fodd bynnag mae'r un mor bwysig bod y gweithlu'n cydnabod eu gwerth eu hunain hefyd.
- iv. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau, a gwnaed y pwyntiau canlynol:
- Diolchodd CC i KS am y cyflwyniad ac roedd yn cydnabod y gwaith da oedd wedi'i wneud. Roedd yn teimlo ei fod yn mynd i gyfeiriad cadarnhaol, adeiladol a buddiol. Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod rhywfaint o ddryswch yn parhau rhwng effaith a gweithgarwch ac mewn rhai meysydd roedd yn amlwg bod gweithgarwch yn cael ei ddisgrifio fel effaith. Roedd yn bryderus y gallai hyn arwain at drafodaeth barhaus os nad oedd rhagor o waith yn cael ei wneud yn y cam hwn er mwyn gwahaniaethu'n well.
  - Dywedodd KS y byddai'n ystyried pwynt CC er mwyn sicrhau bod y cynllun yn nodi'n glir beth oedd yn weithgarwch a beth oedd yn effaith ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng y ddau.
  - Roedd GQ am gymeradwyo'r ffocws ar ddata yn y cynllun newydd. Roedd yn teimlo ei fod wedi gwneud cynnydd ac roedd yn falch o weld yr ymgysylltu â'r sector a'r ffordd yr oedd wedi datblygu.
  - Diolchodd JM i KS unwaith eto am ei chyflwyniad arbennig a'r gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yma. Adlewyrchodd ar y sylw 'byddwn yn siarad â'n cynulleidfa' a phwysleisiodd yr angen i fod yn glir ynghylch union ystyr hynny o gofio bod angen i ni ymgysylltu'n eang â phartneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.
  - Gan adlewyrchu ar y naw canlyniad a llesiant unigolion y mae'r sefydliad yn bodoli i'w cefnogi yn y pen draw, awgrymodd PM y dylai llesiant unigolion sy'n derbyn gofod fod yn ganlyniad penodol hefyd.
  - Gan gyfeirio at bryderon amgylcheddol a thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030, dywedodd PM yr hoffai weld cyfeiriad at bwysigrwydd ymgysylltu â'r sector ehangach yn ogystal â ffocws ar weithredoedd y sefydliad ei hun, er enghraifft, ymgysylltu â chomisiynwyr er mwyn ysgogi newid yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a fyddai'n galluogi gweithwyr gofod cartref i gerdded o un alwad i'r llall yn hytrach na gyrru. Byddai gan hyn effaith o ran llesiant yn ogystal â budd amgylcheddol.
  - Roedd GQ am i'r sefydliad ddarparu arweinyddiaeth i'r sector hefyd wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy annog a chefnogi pobl eraill i weithredu.
  - Ychwanegodd KH fod yna gorff cynyddol o lenyddiaeth ar y newid yn yr hinsawdd a'r ffordd y gall effeithio ar lesiant pobl a byddai'n ddefnyddiol casglu ynghyd y prif negeseuon ac ystyried sefyllfaoedd amrywiol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd. Dywedodd y byddai'n croesawu trafodaeth ar y maes hwn yn y dyfodol.



- v. Diolchodd KS i PM, GQ a KH am eu sylwadau ac awgrymodd fod CCG yn trafod ymhellach sut i gael trafodaeth gyda'r Bwrdd cyfan ar faterion yn ymwneud â'r hinsawdd. **GWEITHREDU**
- vi. Diolchodd y Cadeirydd i KS am y cyflwyniad a gofynnodd a fyddai modd ei rannu ar y Porth. Aeth ati i grynhoi'r drafodaeth gan nodi'n benodol yr angen am y canlynol:
- gwahaniaethu'n gliriach rhwng effaith a mesurau effaith a gweithgarwch;
  - diffiniad cliriach o gynulleidfaoedd amrywiol y sefydliad;
  - mwy o ffocws yn y deilliannau ar bwysigrwydd llesiant y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth;
  - mwy o ffocws ar rôl arweinyddiaeth y sefydliad mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd;
  - dymuniad yr aelodau i gael sgwrs bellach am y broblem newid hinsawdd.
- vii. **Cymeradwyodd** y Bwrdd gyfeiriad y cynllun strategol fel yr amlinellwyd yn y drafodaeth.

### 13. Effeithiolrwydd y cyfarfod

- i. Gofynnwyd i'r aelodau gyfrannu eu harsylwadau at Jamboard wrth i'r cyfarfod fynd rhagddo fel y gellid gwerthuso effeithiolrwydd y cyfarfod.
- ii. Gofynnwyd tri chwestiwn, fel a ganlyn: -
- (i) a oedd un peth yn benodol a oedd yn arbennig o dda yn ystod y cyfarfod heddiw?
  - (ii) a oedd un peth y credwch y gallem fod wedi'i wneud yn wahanol neu'n well?
  - (iii) a oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael sylw dilynol nad oedd yn gam gweithredu'n deillio o'r cyfarfod?
- iii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a dywedodd y byddai CCG yn trafod y sylwadau yn ei gyfarfod nesaf er mwyn nodi unrhyw weithredu a oedd yn angenrheidiol o ganlyniad ac y byddai'r canlyniad yn cael ei rannu â'r aelodau drwy'r Porth.
- iv. Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac felly, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau gan ddatgan bod y cyfarfod ar ben.

### Dyddiad y cyfarfod nesaf:

**Dydd Iau 21 Hydref 2021** (cyfarfod wyneb yn wyneb, os yw'r cyfyngiadau'n caniatáu)

### Camau Gweithredu

Rhif Gweithredu	Eitem	Gweithredu	Pwy
-----------------	-------	------------	-----

07/21/GCC	Eitem 6 – Gosod cyd-destun a phrif negeseuon gan y Prif Weithredwr	Rhannu'r cynllun adfer gofal cymdeithasol â'r Bwrdd unwaith y mae wedi'i gyhoeddi	Llinos Bradbury
08/21/GCC	Eitem 7 Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol Drafft 2020-21, adroddiad ar archwiliad o'r cyfrifon	PM a SE i drafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod y broses o gynnwys materion sy'n effeithio ar y sector yn yr adroddiad	Sue Evans a Peter Max
09/21/GCC	Eitem 12 – Trosolwg o'r Cynllun Strategol 2022-2027	CCG i gael trafodaethau pellach ar faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd	CCG

## Gweithrediadau cyfarfodydd Bwrdd Gorfal Cymdeithasol Cymru

### Log gweithredu 2021-22

Rhif gweithred	Dyddiad cyfarfod	Eitem	Gweithred	Gweithred gan	Dyddiad targed	Canlyniad / diweddariad	Statws cyfredol	Dyddiad cwblhau
07/21/SCW	15.07.21	Eitem 6 - Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr	Rhannwch y cynllun adfer gofal cymdeithasol gyda'r Bwrdd ar ôl ei gyhoeddi	Llinos Bradbury	Gorffennaf 2021	Rhannwyd <a href="#">fframwaith adfer Gofal Cymdeithasol</a> a <a href="#">datganiad ysgrifenedig</a> ag aelodau'r Bwrdd ar 22.07.21	Caewyd	22.07.21
08/21/SCW	15.07.21	Eitem 7 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2020-21, adroddiad archwilio cyfrifon	PM a SE i drafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod cynnwys materion sy'n effeithio ar y sector yn yr adroddiad	Sue Evans & Peter Max	Gorffennaf 2021	Trafodaeth wedi'i chynnal a gosod adroddiad a chyfrif blynyddol.	Caewyd	Gorffennaf 2021
09/21/SCW	15.07.21	Eitem 12 - Trosolwg o'r Cynllun Strategol 2022-2027	CCG i gael trafodaethau pellach ar faterion newid hinsawdd	CCG	Gorffannaf 2021	Gwahoddwyd Gofal Cymdeithasol Cymru i grŵp gofal cymdeithasol dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer newid yn yr hinsawdd sy'n cael ei sefydlu - bydd Andrew Lycett yn cynrychioli'r sefydliad ar hyn. Byddwn yn	Caewyd	Gorffannaf 2021

						gweld yr hyn sy'n cael ei gynllunio fel rhan o'r grŵp hwn yn y lle cyntaf ond cyfle trwy'r cyfryngau cymdeithasol a chynhadledd ADSS sydd ar ddod ym mis Tachwedd i gael newid yn yr hinsawdd ar yr agenda.		
03/21/SCW	29.04.21	Eitem 6 - Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr	Trafod ymhellach gwaith ymgysylltu Gofal Cymdeithasol Cymru a sut i ymgysylltu'n well â'r RPBs ac archwilio buddion partneriaeth gryfach.	Mick Giannasi & Sue Evans	Rhagfyr 2021	Cytunwyd i ddefnyddio'r Cynllun Strategol fel canolbwynt ar gyfer deialog RPB yn 21/22.  Efallai y bydd trafodaeth bellach pan welwn ymateb Llywodraeth Cymru o ymgynghoriad y Papur Gwyn.	Agored	
05/21/SCW	29.04.21	Eitem 10 - Diweddariad System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth	GCC i ddatblygu cynigion yn y tymor byr, canolig a hir i drafod ymhellach mewn diwrnod datblygu Bwrdd yn y dyfodol fel ychwanegiad at y	Aelodau'r Grŵp Cydlynu Cadeiryddion	Gorffennaf	Mae Sue Evans wedi cael trafodaeth gychwynnol gydag unigolyn o'r GIG i ymuno ag Archwilio a Risg fel aelod cyfetholedig, bosib bydd ye unigolyn yn	Agored	

			rhaglen waith cryfhau llywodraethu.			<p>gwneud cais am swydd gwag y Bwrdd a bydd angen aros am ganlyniad hynny cyn bwrw ymlaen ymhellach.</p> <p>Bydd y Bwrdd yn derbyn hyfforddiant Seiberddiogelwch yn seiliedig ar becyn cymorth Bwrdd y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn ei sesiwn ddatblygu ym mis Hydref, yna gallai'r Bwrdd ofyn i'r unigolyn sy'n darparu'r hyfforddiant roi cyngor i'r Bwrdd wrth symud ymlaen mewn perthynas â seiberddiogelwch.</p>		
	30.04.20	Item 8 – Materion rheoleiddio	Gweithio gyda'r tîm FtP i ddatblygu meini prawf ar gyfer pryd gellid defnyddio mwy ar adran 160 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (RISCA), gan ei bod yn rhoi'r	Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio	16.07.20	Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn wedi stopio oherwydd Covid-19 ac felly nid yw'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd	Caewyd	Hydref 2021

			pŵer i fynnu gwybodaeth gan bersonau neu gyrff sy'n ymwneud ag achosion FtP.			mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu'n effeithiol heb weithredu adran 160 ac felly awgrymir bod y weithred hon yn cau. Pe bai'r angen yn codi yn y dyfodol, yna gallai'r trafodaethau ailddechrau gyda Llywodraeth Cymru.		
--	--	--	--	--	--	---	--	--



## CHAIRS ACTION PROCESS MEETING

23 September 2021

Zoom meeting

15:50 – 16:00

### Present:

#### Board Members:

Mick Giannasi (Chair)  
Simon Burch  
Jo Kember

#### Social Care Wales Officers:

David Pritchard, Director of Regulation  
Sue Evans, Chief Executive  
Llinos Bradbury (Governance Senior Officer - minutes)

### Private session:

#### 1. Extension of Registration Period – Rule Change

- i. The Chair and members of the meeting agreed that this was a legitimate Chair's action and proceeded with the meeting and noted that no objection had been received from Board members in taking Chairs Action for this item.
- ii. The Extension of Registration Period Rule Change paper had been provided to all Board Members prior to the meeting and discussed at the Regulation and Standards Committee where there was strong agreement with the proposal to extend the registration period for all on the register from 3 to 4 years.
- iii. The Chair agreed that there was unanimous agreement that the changes proposed were appropriate and necessary and waiting until the October Board would delay the implementation of the change during a difficult time for the sector.
- iv. The Chair asked JK and SB if they were happy to approve the rule change, to which both confirmed they were happy.
